**Cofnodion sydd heb eu cadarnhau o'r Cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Mai 2024**
**Fe'i cynhaliwyd yn 3.7, CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams**
**Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngrwyd**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Clare Jenkins | (CJ) | Is-gadeirydd y Bwrdd |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol. |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Rachel Attwood | (RA) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Julie Bishop | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Iechyd |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil |

Heb eu Cadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| Claire Sullivan | (CS) | Cynrychiolydd ochr staff |

*Dechreuodd y cyfarfod am 11:15*

| **ICC 2024.05.30/1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau** |
|---|---|

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan estyn croeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r trafodion ar-lein. Nododd mai'r Bwrdd yw Corff Llywodraethol y sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: osod cyfeiriad strategol; adeiladu a chynnal partneriaethau strategol; pennu derbynioldeb risg strategol a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar gyflawni yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau; cynnal llywodraethu da a gosod naws a diwylliant sefydliadol.

O ran naws a diwylliant, roedd y Bwrdd yn hyrwyddo diwylliant dysgu, un lle, os nad oedd rhywbeth yn mynd yn ôl y disgwyl, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymddiheuro, yn mynd ati i unioni pethau a gwneud gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Roedd y Bwrdd eisiau i bawb ddod i'r gwaith a bod yn nhw eu hunain, heb ofni anfantais na gwahaniaethu o unrhyw fath, gan gynnwys o unrhyw fath o ymddygiad ffobig. Canfu'r Bwrdd fod hyn yn annerbyniol ac anogodd JW unrhyw un a oedd yn destun gwahaniaethu o'r fath i ddefnyddio'r prosesau sydd ar gael i dynnu sylw ato. Gofynnodd hefyd i unrhyw un a welodd/glywodd am unrhyw wahaniaethu o'r fath i adrodd amdano, gan na ddylai neb ddioddef unrhyw anghyfiawnder. Roedd y Bwrdd hefyd eisiau i staff ffynnu a datblygu, gan gyrraedd eu llawn botensial, gyda gwir ymdeimlad o berthyn i'r sefydliad.

Mae'r Bwrdd bob amser wrth ei bodd yn llongyfarch staff ar gyflawniadau a llongyfarchiadau gwresog i Juniad Iqbal ar ei Wobr Genedlaethol Profiad yng Nghymru (WENA) am ragoriaeth mewn ansawdd, amrywiaeth a chynhwysiant. Llongyfarchodd y Bwrdd hefyd adran Microbioleg Abertawe, ac yn arbennig Karly Harvey a Greg Williams, ar eu Gwobr Arian Stiwardiaeth Gwrthficrobaidd yn y Journal of Wound Care Awards.

Manteisiodd JW ar y cyfle hefyd i ddiolch i PV ac LB am eu gwaith rhagorol yn paratoi nifer o'r papurau yn ymwneud â llywodraethu ar agenda'r bwrdd. Nododd bwysigrwydd diwydrwydd a sylw i fanylion i sicrhau bod pob agwedd ar lywodraethu cyrff cyhoeddus yn gyfredol.

Cynhaliodd y Bwrdd ei fusnes yn unol ag Ymddygiad ffurfiol y Bwrdd; roedd hwn yn cyfeirio at ddarllen yr holl bapurau cyn y cyfarfod, gan wneud y gorau o'r amser a oedd ar gael ar gyfer trafodaethau ar y diwrnod. Glynodd y Bwrdd hefyd at Werthoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth

Yna rhoddodd JW grynodeb o'r eitemau ar yr Agenda.

**Nododd y Bwrdd ymddiheuriadau** gan Claire Sullivan, Neil Lewis a Sian Griffiths.

Heb eu Cadarnhau

| ICC 2024.05.30/2 | Datganiadau o Fuddiant |
|---|---|

Gofynnodd JW am Ddatganiadau o Fuddiannau heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill.

| ICC 2024.05.30/3 | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd |
|---|---|
| ICC 2024.05.30/3.1 | Adroddiad y Prif Weithredwr |

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, tynnodd TC sylw at y canlynol:

Wrth gyflwyno ei hadroddiad, tynnodd TC sylw at y sefyllfa o ran yr Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 a gwahoddodd PV i roi sylwadau.

Darparodd PV ddiweddariad ariannol yn nodi cyllideb 2024/25 ac yn amlinellu'r camau gweithredu sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Yna tynnodd TC sylw at y Rhaglen Rhaglen Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd, gan bwysleisio pwysigrwydd hyn. Yna gwahoddodd JM i ymhelaethu ar y sefyllfa bresennol. Amlinellodd JM ddiben y rhaglen, lefel yr ymgysylltu ar draws byrddau iechyd a'r ffordd yr oedd datblygu cynnwys wedi bod yn ymdrech tîm ar draws cyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gwnaeth hefyd gysylltiad â Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal, gan nodi bod y Fframwaith, a lansiwyd ar 20 Mai 2024, yn berthnasol iawn i'r Rhaglen Mynd i'r Afael â Diabetes Gyda'n Gilydd.

Mewn ymateb i wahoddiad gan TC, gwnaeth CB sylwadau ar Gynhadledd Nyrsio a Bydwreigiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 13 Mai 2024, gan fynegi ei phleser gyda nifer y bobl a ddaeth i'r gynhadledd a'r gefnogaeth ar y diwrnod gan Sue Tranka, Prif Swyddog Nyrsio Cymru.

Yna cyfeiriodd TC at y ffaith mai hwn oedd y cyfarfod olaf i JW, Cadeirydd y Bwrdd ac ar ran holl aelodau'r Bwrdd, diolchodd i JW a dymunodd yn dda iddi wrth iddi symud i'w rôl newydd fel Cadeirydd BIP Bae Abertawe.

Diolchodd JW i TC am ei geiriau caredig ac yna gwahoddodd unrhyw sylwadau ar yr adroddiad.

Croesawodd KY ddatblygiad y Cyfeiriadur Addysg a Hyfforddiant yn y Maes Cynhwysiant Iechyd ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, gan nodi ei berthnasedd i sefydliadau trydydd sector.

Cyfeiriodd NE at sylw yn Adroddiadau'r Cyfarwyddiaethau ynghylch dileu offeryn diabetes. Gofynnodd am ragor o fanylion am hyn a lefel y risg yr oedd yn ei chynrychioli. Eglurodd IB fod yr offeryn – Audit Plus – yn darparu data gofal sylfaenol i'w defnyddio ar draws y GIG ac yn wir ar draws cyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y cwmni dan sylw yn tynnu'r cynnyrch yn ôl ac roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wrthi'n gweithio ar ddatrysiad

Heb eu Cadarnhau

posibl. Sicrhaodd IB y Bwrdd fod IGDC yn ymwybodol o holl ofynion Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran y datrysiad a chytunodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Bwrdd am unrhyw ddatblygiadau.

**Cam Gweithredu: IB**

**Nododd** y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr a **chymerodd sicrwydd** o'r Adroddiad a'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd.

| ICC 2024.05.30/3.2 | Trosolwg Diweddaraf o Iechyd y Cyhoedd |
|---|---|

Gan gyfeirio at Ddangosfwrdd Trosolwg Cyflym Iechyd y Cyhoedd, tynnodd IB sylw yn gyntaf at y camau a gymerwyd yn dilyn Cyfarfod Bwrdd mis Mawrth 2024 mewn perthynas â’r gostyngiad mewn disgwyliad oes iach yng Nghymru. Esboniodd fod y tîm wedi dadansoddi'r rhesymau a'u bod yn bennaf yn gwympiadau mewn iechyd da hunan-gofnodedig ymhlith merched o dan 65 oed ac yn enwedig y rhai 55-64 oed. Esboniad posibl oedd dirywiad gwirioneddol yn hytrach nag unrhyw heriau methodolegol neu newidiadau o ran adrodd. Cytunodd IB i ddosbarthu papur briffio llawn i'r Bwrdd y tu allan i'r cyfarfod.

**Cam Gweithredu: IB**

Yna gwnaeth IB sylw ar farwolaethau gormodol, gan gyfeirio'n benodol at y cynnydd mewn marwolaethau o glefyd yr afu, a oedd yn gyson uwch na chyfartaledd 5 mlynedd Cymru. Roedd yn ymwneud â ffenomen y DU mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol ac yfed problemus a hefyd lefelau gordewdra.

O ran penderfynyddion ehangach iechyd, tynnodd IB sylw at lefelau diweithdra ac anweithgarwch economaidd. Roedd y rhain yn peri pryder, a gofynnodd i'r Bwrdd nodi'r gwaith arfaethedig ar dueddiadau'r farchnad lafur.

Mewn ymateb i ymholiad gan TR, nododd IB fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys yn wahanol i fyrddau iechyd eraill o ran rhoi ei wasanaethau acíwt ac arbenigol ar gontract allanol. Roedd hyn yn golygu bod cymariaethau â byrddau iechyd eraill yn gyfyngedig.

Diolchodd JW i IB am ei gyflwyniad, gan nodi ei fwriad i gysylltu â holl aelodau'r Bwrdd ar adnewyddu cynnwys y dangosfwrdd.

**Cam Gweithredu: IB**

Yna gwahoddodd JW unrhyw sylwadau neu gwestiynau.

Gofynnodd MM am y dadansoddiad o bobl sy'n aros mwy na 36 wythnos i ddechrau triniaeth ac argaeledd data mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI).

Heb eu Cadarnhau

Cydnabu IB bwysigrwydd y cwestiwn hwn, gan dderbyn bod meintioli syml yn orsymleiddio. Darparodd SA fanylion ychwanegol ar sut yr oedd data EDI yn arwain peth o'r gwaith yn ei chyfarwyddiaeth a nododd MK hefyd y gwaith parhaus o fireinio data EDI mewn perthynas â gwasanaethau rheng flaen yn ei gyfarwyddiaeth. Cydnabu TC hefyd arwyddocâd y cwestiwn a chyfeiriodd at yr angen am fanylion ychwanegol mewn perthynas â marwolaethau gormodol oherwydd clefyd y galon. Dywedodd y byddai'r Tîm Gweithredol yn ystyried y mater hwn ymhellach.

**Cam Gweithredu: TC**

Cyfeiriodd CB at waith sy'n mynd rhagddo ar lefel rhwydwaith clinigol a'r data a gasglwyd mewn perthynas â phobl sy'n destun oedi o ran llwybrau gofal mewn ysbytai. Awgrymodd JW, yn ogystal â chyfrif nifer y bobl sy'n destun oedi, fod budd mewn cofnodi hyd yr oedi o ystyried bod dadgyflyru yn gronnol, a bod unrhyw hyd arhosiad yn yr ysbyty yn atal pobl hŷn eiddil rhag dychwelyd adref.

Bu'r Bwrdd **yn trafod** ac **yn craffu** ar Adroddiad y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym. **Cymerodd sicrwydd** o'r adborth a'r sylwadau a **nododd** y meysydd penodol o ddadansoddi data sydd ar y gweill.

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.05.30/3.3** | **Adroddiad Perfformiad Integredig (Mis 1), Adroddiad Cyllid a Chofrestr Risg Strategol** |

Wrth gyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Integredig, gwahoddodd JW HG i roi crynodeb. Dechreuodd HG drwy nodi'r sefyllfa diwedd blwyddyn, gan nodi'r alldro cytbwys a chyflawniad o 90% yn erbyn y cerrig milltir yng nghynllun 2023/24. Roedd y Tîm Gweithredol yn gweithio ar y sail y byddai Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMPT) 24/27 yn cael ei gymeradwyo ac roedd yr wybodaeth a oedd gerbron y Bwrdd heddiw yn ymwneud â mis 1 a mis 2.

Dywedodd HG hefyd fod yr IPR a'r PAD yn cael eu mireinio'n barhaus, a byddai'r camau nesaf yn ymddangos yn yr adroddiadau i gyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

**Cam Gweithredu: HG**

Yna gwahoddodd HG yr arweinwyr gweithredol i amlygu unrhyw faterion penodol.

<u>Pobl a Llywodraethu</u>

Tynnodd RA sylw at y gwaith sy'n canolbwyntio ar adolygiadau gwerthuso a datblygu yn y Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio; cafwyd gwelliant o 10% dros y 6 mis diwethaf.

<u>Llywodraethu Ariannol</u>

Heb eu Cadarnhau

Tynnodd HG sylw at y cywiriad i gamgymeriad mewn fersiwn cynharach o Dabl B. Dywedodd hefyd, o ystyried mai hwn oedd mis 02 o'r flwyddyn ariannol newydd, y bu adrodd ysgafn yn erbyn y dangosyddion gofynnol.

Amlinellodd CB y cynnydd da o ran adolygu polisïau a gweithdrefnau Ansawdd, Nyrsio a Gwasanaethau Proffesiynol Perthynol (QNAPS). Cyfeiriodd at waith oedd ar y gweill gyda chyfarwyddiaeth MK ar risgiau strategol i'w gyflwyno wedyn i gyfarfod Bwrdd mis Medi. Cyfeiriodd CB hefyd at un rhybudd cynnar yn Bron Brawf Cymru.

Llywodraethu Gwybodaeth

Dywedodd IB wrth y Bwrdd y byddai papur ar achosion o dorri rheolau data personol yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Tynnodd sylw hefyd at gyngor i Weithrediaeth y GIG ar gryfhau ei lywodraethu gwybodaeth.

Gofynnodd HG i PV gyfeirio at unrhyw faterion llywodraethu eraill. Soniodd PV am y rhaglenni archwilio mewnol ac allanol, y sicrwydd sylweddol a gafwyd yn dilyn archwiliad o gynlluniau gwaith pwyllgorau a chynnwys sgôr targed o 6 yn erbyn risg 1614 ar gyfer Gweithrediaeth y GIG.

Llywodraethu Clinigol

Ni chodwyd unrhyw faterion.

Gofynnodd HG am unrhyw bwyntiau pellach ar yr adrannau uchod.

Cododd TR gwestiwn cyffredinol ynghylch risg a'r agenda EDI. O'i safbwynt hi, nid oedd y papurau a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn cyfeirio'n benodol at y risg hon a gofynnodd am fwy o ystyriaeth o hyn.

Cytunodd IB ar bwysigrwydd deall risgiau a materion sy'n berthnasol i bob un o wasanaethau a swyddogaethau'r sefydliad. Roedd yn meddwl tybed a oedd pwynt TR yn ymwneud â mater yn hytrach na risg. Crynhodd ansawdd y data sydd ar gael a chydnabu'r bylchau niferus yn y setiau data cyfredol.

Cefnogodd MM ymholiad TR gan nodi, o'i safbwynt ef, nad oedd digon o broffil i'r agenda EDI. Cydnabu TC yr angen i ystyried y mater hwn ymhellach, gan gyfeirio at y rheolaethau a'r dylanwad oedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru dros yr agenda EDI. Cododd y cysyniad o gofnod materion ochr yn ochr â'r gofrestr risg a chefnogodd JM y cysyniad hwn. Ychwanegodd MK fanylion am y rhwystrau o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ond cytunodd ar yr angen i sicrhau mwy o welededd.

Heb eu Cadarnhau

Atgoffodd PV y bwrdd o'r angen i ymgorffori cydraddoldeb yn strwythur y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn y rheolau sefydlog a nododd SA y gwaith ar lefel Llywodraeth Cymru o ran casglu data annhegwch iechyd. Crynhodd hefyd waith grŵp mewnol ar hyn a chytunodd i gysylltu â TR yn unol â hynny.

**Cam Gweithredu: SA/TR**

Cytunodd TC a PV y byddai'r Tîm Gweithredol yn ystyried y cysyniad o Gofnod Materion ymhellach ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd mewn sesiwn Datblygu Bwrdd.

<u>Cynllun Tymor Canolig Integredig</u> (IMTP)

Adroddodd HG ar 96% o gydymffurfiaeth â'r cerrig milltir yn IMPT 24/25. Ar gyfer y cyfnod hwn o'r flwyddyn, nid oedd llawer o amrywiaeth ond tynnodd HG sylw'r Bwrdd at 3 carreg filltir a nodwyd yn goch a chrynhoi'r rhesymau am hynny.

<u>Sgrinio, Brechiadau ac Imiwneiddiadau, Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd</u>

Adroddodd MK ar gynnydd rhaglen Bron Brawf Cymru. Ar hyn o bryd roedd 588 o fenywod yn aros am fwy na 36 mis, ond y bwriad oedd adfer y rhaglen yn llawn erbyn Mehefin 2024.

O ran Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW), adroddodd MK fod y tîm bellach wedi dal i fyny â'r ôl-groniad a oedd wedi deillio o bandemig Covid-19. Parhaodd y tîm â'i raglen drawsnewid bellgyrhaeddol ac roedd yn delio ag atgyfeiriadau newydd o fewn y 3 mis safonol. Roedd problemau'n parhau gyda'r gwasanaeth ail-alw blynyddol ar gyfer y rhai mewn risg uchel a'r cyfnod ail-alw 2 flynedd ar gyfer y rhai â risg isel.

Aeth MK ymlaen wedyn i adrodd ar achos o'r frech goch yng Ngwent; heb unrhyw achosion pellach, roedd yr achos i fod i gau ar 12 Mehefin 2024.

Amlinellodd i'r Bwrdd gyhoeddi adroddiad yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig ar 20 Mai 2024 a'r ymateb cydgysylltiedig a gyflwynwyd gan bartneriaid yn gynharach. Aeth MK ymlaen i sicrhau'r Bwrdd bod gwasanaeth profi trwy'r post pwrpasol wedi'i sefydlu a'i fod yn gweithio'n dda. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd lleol ar y camau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen.

Ar ran SG, diolchodd JW i MK am gymryd yr awenau wrth lunio'r ymateb hwnnw.

Yn drydydd, rhoddodd MK y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ar fater gyda Safle Tirlenwi Withyhedge. Roedd hyn wedi ysgogi cwynion gan y rhai sy'n byw'n lleol am arogleuon yn dod o'r safle. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwybod am hyn ym mis Hydref 2023 ac

Heb eu Cadarnhau

wedi cysylltu ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Ionawr 2024 am gyngor arbenigol ar oblygiadau'r arogleuon hyn i iechyd dynol. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi rhoi'r cyngor hwn ar y pryd ac wedi cynghori capio'r safle a chasglu data monitro i lywio asesiad ffurfiol o'r effaith ar iechyd dynol. Dywedodd MK fod y tîm rheoli digwyddiadau yn asesu'r data oedd ar gael a'i fod yn rhoi cyngor rheolaidd i'r preswylwyr. Ailadroddodd mai Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) oedd y rheolydd gyda phwerau gorfodi; pwynt a atgyfnerthodd MM. Nid oedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru unrhyw bwerau rheoleiddio dros y mater hwn ac roedd yr holl bwerau gorfodi wedi'u breinio yn CNC.

**Ystyriodd** y Bwrdd sefyllfa ariannol Iechyd Cyhoeddus Cymru a **chymryd sicrwydd** o'r trafodaethau a'r camau gweithredu.

| | |
|---|---|
| | **Egwyl** |
| **ICC 2024.05.30/4** | **Partneriaeth Strategol – Llais** |

Estynnodd JW groeso cynnes i Medwyn Hughes ac Alyson Thomas, Cadeirydd a Phrif Weithredwr Llais. Gwahoddodd hwy i roi cyflwyniad cychwynnol cyn sgwrs fwy cyffredinol gyda'r Bwrdd.

Diolchodd MH i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru am y cyfle i ymuno â'r cyfarfod. Amlinellodd y cefndir o ran sefydlu Llais drwy'r sail ddeddfwriaethol i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Pwysleisiodd y pwerau eang a bwriad cadarn y sefydliad i gryfhau lleisiau pobl Cymru ac yn arbennig y lleisiau mud. Amlygodd Strategaeth Genedlaethol Llais a lansiwyd 3 wythnos yn ôl a gosododd y blaenoriaethau allweddol o fewn y Strategaeth, ynghyd â'r egwyddorion allweddol.

Roedd gweithio mewn partneriaeth strategol yn egwyddor sylfaenol a oedd yn sail i'r ffordd y byddai Llais yn cyflawni ei gyfrifoldebau ac roedd MH yn edrych ymlaen at bartneriaeth strategol gynhyrchiol.

Ychwanegodd AT fwy o fanylion am ddyletswyddau a chyfrifoldebau priodol Llais a chyrff cyhoeddus yng Nghymru ac edrychodd ymlaen at sgwrs fanylach am gydweithio ac ymgysylltu gweithredol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y Sgwrs Genedlaethol sydd i ddod.

Diolchodd JW i MH ac AT am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth ac ailadroddodd ymrwymiad Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu partneriaeth waith effeithiol. Roedd sylwadau gan aelodau'r Bwrdd yn pwysleisio ac yn croesawu synergedd agendâu'r ddau gorff, yn cymeradwyo'r angen i gryfhau systemau ymgysylltu, yn croesawu'r bwriad i ymgysylltu ar draws Blaenoriaethau Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn edrych ymlaen at ganlyniad trafodaethau ar lefel Weithredol i gytuno ar fodel gweithio ar y cyd fel partneriaid strategol.

**Cam Gweithredu: TC**

| | |
|---|---|
| **ICC 2024.05.30/5** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (Parhad)** |
| **ICC 2024.05.30/5.1** | **Grŵp Ymateb i Ddigwyddiad – Fepio a Phobl Ifanc** |

Heb eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| Croesawodd JW JB i'r cyfarfod a gwahoddodd JM i roi cyflwyniad cychwynnol. Amlinellodd y cynnydd cyflym yn nifer yr achosion o fepio ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru. Roedd hyn yn glinigol arwyddocaol ac yn gyfystyr ag argyfwng iechyd y cyhoedd. Yna amlinellodd JB y dull arloesol a ddefnyddiwyd drwy sefydlu grŵp ymateb i ddigwyddiad (IRG), model a ddefnyddir fel arfer mewn achosion o glefydau trosglwyddadwy.<br><br>Esboniodd JB y ffyrdd y daeth cynrychiolwyr o grwpiau rhanddeiliaid allweddol a gweithwyr proffesiynol at ei gilydd yn yr IRG a'r dull o ymdrin â'r gwaith. Roedd hyn yn cynnwys adroddiad epidemiolegol cychwynnol, ymchwiliadau maes pellach (gan gynnwys arolygon cyflym o ysgolion) a gwaith grŵp ffocws i gael cipolwg ar arferion a chanfyddiadau plant a phobl ifanc ynghylch fepio. Aeth JB ymlaen i nodi'r pwyntiau dysgu gan nodi'r bwriad i gynnal adolygiad dysgu llawn yn ystod y mis. Yna daeth y cyflwyniad i ben drwy amlinellu'r canfyddiadau, y defnydd posibl o'r model IRG yn y dyfodol a'r gwaith parhaus i sicrhau amlygrwydd parhaus i argymhellion yr IRG. Ar ran SG, llongyfarchodd JW JB a'r IRG a gofynnodd am sicrwydd ynghylch y ffocws parhaus ar yr argymhellion.<br><br>Croesawodd KY y defnydd o'r model IRG ac edrychodd ymlaen at gael rhagor o wybodaeth am sut i'w gymhwyso mewn gwahanol leoliadau. Atgoffodd y Bwrdd fod y Llysgenhadon Ifanc (YA) yn haf 2023 wedi nodi fepio fel un o'u prif flaenoriaethau. Gofynnodd am anfon nodyn uniongyrchol i'r Llysgenhadon Ifanc i ddwyn y gwaith hwn i'w sylw. Cytunodd JB i wneud hyn, gan nodi cyfranogiad parhaus y YA wrth i'r gwaith fynd rhagddo.<br><br>**Cam Gweithredu: JM/JB**<br><br>Croesawodd DC (fel cyn hyrwyddwr y Llysgenhadon Ifanc) yr adroddiad hwn ac awgrymodd gynnwys fepio yn y Dangosfwrdd Trosolwg Cyhoeddus Cyflym. Gwnaeth IB sylwadau ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd a chytunodd i ystyried ffyrdd o ffeilio bylchau presennol. Rhoddodd LM ddiweddariad i'r Bwrdd ar gyrhaeddiad cyfryngau cymdeithasol yr adroddiad a'r cyhoeddiad hwn a gwaith rhagorol Chris Emerson mewn cyfweliadau â'r cyfryngau.<br><br>**Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth** i'r adroddiad, **llongyfarchodd** bawb a fu'n ymwneud â'r gwaith a wnaed hyd yma a **chefnogodd** yr angen i barhau i ganolbwyntio ar weithredu'r argymhellion. | |
| **ICC 2024.05.30/5.2** | **Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion Pwyllgorau** |
| <u>Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Clinigol</u> <u>(ACGC)</u><br>Cadarnhaodd NE nad oedd unrhyw faterion penodol i'w codi heblaw'r rhai a nodir yn yr Adroddiad.<br><br><u>Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (PODC)</u><br>Nid oedd gan MM unrhyw faterion i'w hadrodd. | |

Heb eu Cadarnhau

Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC)
Cadarnhaodd DC nad oedd unrhyw faterion wedi'u nodi.

**Nododd** y Bwrdd yr adroddiad a **chymerodd sicrwydd** o'r cynnwys a'r diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod.

| **ICC 2024.05.30/5.3** | **Adroddiadau Blynyddol a Chynlluniau Gwaith y Pwyllgor** |
|---|---|

Gwahoddodd JW LB i gyflwyno'r papurau hyn.

Crynhodd LB yr holl waith oedd ynghlwm â llunio'r adroddiad blynyddol a chadarnhaodd fod yr holl bwyllgorau wedi asesu ac argymell y cynlluniau gwaith arfaethedig.

Aeth LB ymlaen i amlinellu'r gwaith a wnaed yn 23/24 i wella gwaith ar draws bwyllgorau, a nodi'r materion hynny ar gyfer y gwaith trawsbynciol a oedd yn teilyngu dull ar draws pwyllgorau.

Ychwanegodd PV fanylion am y ffordd yr oedd y gwaith hwn yn dangos bod y bwrdd yn perfformio'n dda, a nododd y dyfarniad diweddar o sicrwydd sylweddol yn dilyn adolygiad Archwilio Mewnol.

Roedd y Bwrdd wedi:

- **ystyried** Cynlluniau Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 a **chael sicrwydd** bod y rhain yn bodloni'r gofynion a nodir yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor.
- **ystyried** a **chael sicrwydd** o'r dull o weithio ar draws Pwyllgorau a ddatblygwyd ar gyfer 2024/25.

| **ICC 2024.05.30/6** | **Eitemau i'w Cymeradwyo** |
|---|---|
| **ICC 2024.05.30/6.1** | **Cynllun Cyfalaf 2024-25** |

Amlinellodd HG ddiben Rhaglen Gyfalaf 2024/25 gan nodi'r gwahaniaeth rhwng cyllid cyfalaf dewisol a strategol. Roedd yr olaf yn deillio o gyllid penodol gan Lywodraeth Cymru yn erbyn cyflwyniadau ffurfiol tra roedd cyfalaf dewisol wedi'i gynnwys yn y dyraniad blynyddol.

Soniodd NE am y cynllun cyfalaf 10 mlynedd a luniwyd yn gofyn am gynnwys opsiynau cynllunio cyfalaf newydd ac arloesol yn ystod y 10 mlynedd nesaf, gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial fel enghraifft. Amlinellodd IB y gwaith sydd ar y gweill ar lefel genedlaethol a myfyriodd HG ar y swm cyfyngedig o arian cyfalaf sydd ar gael. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn am gynllun 10 mlynedd amlinellol yn ychwanegol at y gofynion cyfalaf a nodir yn yr IMTP.

Cydnabu NE y pwynt hwn ond pwysleisiodd yr angen am hyblygrwydd a sicrhau bod y sefydliad yn cynnal ffocws yn y dyfodol.

Heb eu Cadarnhau

Gofynnodd MM am y broses ar gyfer cymeradwyo dros £100,000 gan nodi mai dyma'r lleiafswm sydd ei angen ar gyfer achos busnes ffurfiol. Dywedodd HG y byddai datganiad ffurfiol o angen cyn cael ei gymeradwyo o dan y swm hwnnw. Dywedodd fod nifer o gynigion yn ymwneud ag amnewid offer. Mewn ymateb i ymholiad gan TR, cytunodd HG i adolygu defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gynigion cyfalaf.

**Cam Gweithredu: HG**

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y cynlluniau gwariant cyfalaf dewisol arfaethedig ar gyfer 2024/25 a nododd y dyraniad strategol ar gyfer 2024/25, rhaglenni adnewyddu cyfalaf strategol arfaethedig, ac achosion busnes.

| **ICC 2024.05.30/6.2** | **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** |
|---|---|

Canmolodd JW PV a LB ar y gwelliannau pellach i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (BAF) oedd eisoes yn torri tir newydd. Roedd hwn yn waith llywodraethu corfforaethol o'r safon uchaf ac roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ffodus o gael PV a LB fel arbenigwyr mewnol mewn llywodraethu.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y newidiadau arfaethedig i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

| **ICC 2024.05.30/6.3** | **Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog** |
|---|---|

Amlinellodd PV y newidiadau a nodwyd yn yr adolygiad o'r Rheolau Sefydlog a'r rhesymeg sy'n sail i'r rhain.

Gofynnodd MM am eglurhad ar y cynnig i ethol cadeirydd mewn unrhyw gyfarfod pan nad oedd Cadeirydd y Bwrdd, yr Is-Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn bresennol.

**Cymeradwyodd** y Bwrdd y newidiadau arfaethedig yn amodol ar gynnwys geiriau y cytunwyd arnynt i ateb ymholiad MM, i gadarnhau y dylai'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd yn bresennol benderfynu yn gyntaf a ddylid bwrw ymlaen â'r cyfarfod, cyn pennu cadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

| **ICC 2024.05.30/6.4** | **Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Blynyddol** |
|---|---|

Amlinellodd PV y newidiadau arfaethedig i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor yr oedd pob un ohonynt wedi bod yn destun craffu gan y pwyllgor perthnasol.

Gofynnodd MM am gynnwys cyfrifoldeb ynghylch yr agenda EDI ym mhob set o Gylch Gorchwyl. Byddai hyn yn ategu rôl y Bwrdd yn hyn o beth fel yr adlewyrchir yn y Rheolau Sefydlog. Roedd y Bwrdd yn cefnogi'r cynhwysiad a awgrymwyd.

Heb eu Cadarnhau

Heb eu Cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyodd** y Bwrdd y Cylch Gorchwyl diwygiedig yn amodol ar gynnwys cyfrifoldeb ar lefel pwyllgor ynghylch yr agenda EDI. | |
| **ICC 2024.05.30/6.5** | **Cofnodion Bwrdd a Chofnod Camau Gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2024** |
| **Cadarnhaodd** y Bwrdd y Cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.<br><br>Rhoddodd PV ddiweddariad ar y Cofnod Camau Gweithredu.<br><br>**Cymeradwyodd** y Bwrdd y Cofnodion a **nododd** y sefyllfa o ran y Cofnod Camau Gweithredu. | |
| **ICC 2024.05.30/6.6** | **Adroddiad Blynyddol y Ddyletswydd Ansawdd 2023/24** |
| Dywedodd CB mai hwn oedd yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol cyntaf a luniwyd yn unol â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd. Amlinellodd y cefndir, y cynnwys, a'r hyn a ddysgwyd o'i lunio a nododd yr enghreifftiau niferus o arferion da a allai ddangos i'r cyhoedd y safonau ansawdd ar draws y sefydliad.<br><br>Llongyfarchodd aelodau'r Bwrdd CB a phawb a fu'n rhan o'r gwaith o lunio'r adroddiad ac roeddent yn edrych ymlaen at fireinio pellach yn y flwyddyn i ddod.<br><br>**Cymeradwyodd** y Bwrdd Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2023 -2024 i'w gyhoeddi. | |
| **ICC 2024.05.30/7** | **Eitemau i'w Nodi** |
| **ICC 2024.05.30/7.1** | **Adroddiad Preifat y Cadeirydd (Mawrth 2024)** |
| Eglurodd JW ddiben rhoi'r adroddiad hwn yn gyhoeddus, yn unol â *Phrotocol y Bwrdd ar gyfer Neilltuo Materion i Gyfarfod Preifat o'r Bwrdd (a Phwyllgorau),* a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2023.<br><br>**Nododd** y Bwrdd Adroddiad Preifat y Cadeirydd. | |
| **ICC 2024.05.30/7.2** | **Blaengynllun y Bwrdd** |
| **Nododd** y Bwrdd y Blaengynllun | |
| **ICC 2024.05.30/7.3** | **Papurau Bwrdd Preifat** |
| Dim. | |
| **ICC 2024.05.30/8** | **Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf** |
| Cyn cau'r cyfarfod yn ffurfiol, diolchodd NE JW ar ran y Bwrdd, talodd deyrnged i'w gwasanaeth cyhoeddus a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd.<br><br>Diolchodd JW i bawb am eu geiriau caredig. Bu'n bleser a braint iddi fod yn Gadeirydd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru, a bu'r 7 mlynedd diwethaf yn cynrychioli blynyddoedd | |

| |
|---|
| cyfoethocaf ei gyrfa. Gadawodd Fwrdd oedd yn perfformio'n dda a diolchodd i bawb am ddarparu safon mor uchel o drafod a chraffu mewn ffordd mor gyfeillgar ac effeithiol.<br><br>Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 25 Gorffennaf 2024. |
| Daeth y cyfarfod i ben am 14:30 |

Heb eu Cadarnhau